IM Co PPC: Diweddariad ar Gynnydd

Medi 2026

Paratowyd gan Rob Lamb, Prif Swyddog Gweithredol.

Yn dilyn cyfnod o dri mis pwysig iawn i'r sefydliad, mae'r papur hwn yn crynhoi datblygiadau allweddol ers 1 Mehefin 2026, wedi'u trefnu o dan yr un tri maes a ddefnyddiwyd yn y diweddariad blaenorol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu: llywodraethu, pobl a gweithrediadau.

Llywodraethu

Mae'r strwythur llywodraethu yn gwahanu tair rôl wahanol: Bwrdd IM Co annibynnol sy'n gyfrifol am yr endid rheoleiddiedig, Bwrdd Cyfranddalwyr sy'n arfer materion a gedwir yn ôl ar ran yr wyth perchennog, a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu sy'n parhau fel y corff goruchwylio cleientiaid ar y cyd, gan gydweithio'n agos â'r Pwyllgorau Cronfa Bensiwn unigol.

Mae'r FCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwmni ddangos y gall weithredu'n annibynnol ar ei gyfranddalwyr – mae hyn wedi'i adeiladu yn y fframwaith ac wedi'i gytuno â'r holl bartïon. Gyda'r FCA yn cadarnhau ei awdurdodiad ffurfiol ar 1 Medi, mae'r strwythur hwn bellach yn weithredol:

- Mae cyfarwyddwyr y Bwrdd Trosiannol wedi ymddiswyddo, ac mae cyfarwyddwyr newydd wedi'u penodi, gyda'r holl ffeiliau priodol gyda Thŷ'r Cwmnïau wedi'u cwblhau
- Mae cyfalaf rheoleiddiol wedi'i alw a'i gadarnhau
- Mae cytundebau gwasanaethau Cyfranddalwyr a Chleientiaid wedi'u llofnodi a'u gweithredu

Mae'r Cytundeb Cyfranddalwyr yn gofyn am gynllun busnes pum mlynedd a chyllideb flynyddol a gymeradwyir gan fwyafrif uchel o'r cyfranddalwyr (75%) cyn Ebrill 2027. Mae'r polisi tâl yn fater neilltuedig ar wahân ar yr un trothwy.

Er mwyn bwrw ymlaen ar fyrder gyda'r uchod, mae IM Co PPC wedi datblygu map ffordd Llywodraethu, a gymeradwywyd gan y Bwrdd a rhannwyd gyda'r CBLl ym mis Gorffennaf. Wedi'i seilio ar ffrydiau gwaith unigol sy'n cwmpasu gweithgareddau gweithredol allweddol, mae'r map ffordd yn amlinellu'r pwyntiau lle bydd rhaid gwneud penderfyniadau a fydd yn mynd â datblygiad y cynllun ymlaen tuag at sicrhau cymeradwyaeth Cyfranddalwyr, gan ymgysylltu ac ymgynghori â hwy drwy'r amser.

Gan gymryd 'buddsoddiad lleol' fel enghraifft o weithgaredd gweithredol allweddol (a fydd yn ymddangos fel pennod ar wahân yn y cynllun 5 mlynedd terfynol), rydym yn mynd ati i ymgysylltu'n fanwl â'r ecosystem rhanddeiliaid – sy'n cynnwys Llywodraeth Leol, partneriaid datblygu economaidd, Llywodraeth Cymru a chyfryngwyr eraill. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy gydol Ch3 a Ch4 2026.

Pobl

Mae 16 aelod parhaol o staff a dau gontractwr bellach yn eu swyddi, ac mae dau arall wedi derbyn cynigion i ymuno â'r cwmni. Rydym yn falch o fod wedi gallu parhau i recriwtio yn seiliedig ar awydd i gyfuno cof sefydliadol a pherthnasoedd sy'n hanfodol i barhad gwasanaeth, tra'n tynnu ar

MAE CWMNI RHEOLI BUDDSODDIADAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYFYNGEDIG ("WPP") YN GWMNI PREIFAT CYFYNGEDIG TRWY GYFRANDDALIADAU, WEDI'I YMGORFFORI YNG NGHYMRU O DAN DDEDDF CWMNÏAU 2006 (CWMNI RHIF 16645479). SWYDDFA GOFRESTREDIG: CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP, Y DEYRNAS UNEDIG.

safbwyntiau newydd o gefndiroedd rheoleiddio buddsoddiadau, risg, cyllid, cyfathrebu, a gweithrediadau.

Mae'r gymysgedd yn fwriadol: mae arnom angen pobl sy'n deall y system rydym yn ei hetifeddu ac sydd ganddynt ddealltwriaeth reddfol o flaenoriaethau aelodau. Mae hefyd angen pobl sy'n dod â disgyblaethau'r amgylchedd rheoledig sydd o'n blaenau. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i weithio'n ddoeth a gyda ffocws, gan dynnu ar y dalent orau sydd ar gael a'r ymrwymiad amlwg gan recriwtiaid newydd posibl i wasanaethu pwrpas Cymreig unigryw IM Co PPC.

O Fedi 1, rydym yn falch iawn o gadarnhau bod y penodiadau canlynol bellach yn y swydd:

- Pennaeth Gweithrediadau Buddsoddi
- Cyfarwyddwr Gweithrediadau
- Cyfarwyddwr Pobl

Mae cyfarfodydd cychwynnol y cwmni a diwrnodau tîm wedi caniatáu inni gysylltu fel pobl, i gytuno ar ein pwrpas a'n diwylliant cyffredin sy'n diffinio'r cwmni. Yn ystod mis Awst fe wnaethom ddefnyddio'r fforwm hwn i ddechrau trafod datblygu strategaeth. Tra bod hyn yn parhau (a bydd yn cynnwys ystyried cyflwyniad allanol y cwmni), rydym bellach yn mynd i'r afael â'n dymuniad i adeiladu cymhwysedd traws-swyddogaethol a dealltwriaeth ddofn o'r dirwedd CPLlL ehangach. Mae rhoi ein mandad yn ffurfiol yn gofyn i ni fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dydd i ddydd, yn unigol a gyda'n gilydd, o ran cydymffurfio a chyfrifoldebau technegol ac ymddiriedol.

Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi'i recriwtio'n llawn yn ôl yr amserlen, ac yn unol â gofynion rheoleiddio o dan Drefn Uwch Reolwyr yr FCA. Mae'r tîm prif swyddogion yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Buddsoddi fel cyfarwyddwyr gweithredol, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Risg, Pennaeth Staff ac yn ddiweddar, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Pobl.

Mae Cadeirydd annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol, gan gynnwys dau Gyfarwyddwr Anweithredol Cyfranddalwyr a gynigiwyd i'w hystyried gan y cyfranddalwyr eu hunain, wedi cael eu recriwtio. Cafodd y Bwrdd Trosiannol ei ddiddymu'n ffurfiol ar 28 Gorffennaf 2026, a chyda hynny, ei ddisodli gan Fwrdd IM Co PPC . Mae anwytho a hyfforddiant ar gyfer pob aelod newydd o'r Bwrdd yn parhau. Daeth y Bwrdd at ei gilydd am y tro cyntaf ar ôl awdurdodiad yr FCA ar 2 Medi 2026, i drafod strategaeth y Cwmni.

Gweithrediadau

Cafodd y canllawiau rheoleiddiol sy'n sail i Ddeddf Cynllun Pensiynau 2026 eu deddfu ar 30 Mehefin 2026, gan nodi deddfiad deddfwriaethol swyddogol pecyn diwygio pensiwn 'Fit for the Future' y Llywodraeth. Gellid dehongli hyn fel 'diwedd y dechrau'.

Fel y nodir uchod, wedi i'r FCA gadarnhau ei fod yn awdurdodi IM Co PPC yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2026, dechreuwyd ar weithredu cytundebau allweddol a gweithredu cyfres o brosesau gweinyddol hanfodol fel bod y busnes yn barod i weithredu'n llawn o 1 Medi 2026. Y cam olaf oedd gweithredu'r cytundeb gwasanaeth gweithredu, a lofnodwyd ar 27 Awst, 2026.

MAE CWMNI RHEOLI BUDDSODDIADAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYFYNGEDIG ("WPP") YN GWMNI PREIFAT CYFYNGEDIG TRWY GYFRANDDALIADAU, WEDI'I YMGORFFORI YNG NGHYMRU O DAN DDEDDF CWMNÏAU 2006 (CWMNI RHIF 16645479). SWYDDFA GOFRESTREDIG: CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP, Y DEYRNAS UNEDIG.

I'r perwyl hwn, cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Risg a Chydymffurfiaeth Archwilio (ARCC) ar 20 Awst a 1 Medi 2026, yn y drefn honno, sef y tro cyntaf i naill ai'r Bwrdd neu ei is-bwyllgorau ymgynnull yn ffurfiol mewn amgylchedd gweithredu 'byw' ar ôl yr awdurdodiad.

Roeddem yn falch iawn o symud i'n cartref parhaol yn One Central Square, Caerdydd ddechrau mis Gorffennaf. Yn ystod ymweliad â'r swyddfa newydd ar 9 Gorffennaf, mynegodd y Gweinidog pensiynau Torsten Bell ei ddiolch i IM Co PPC am symud ymlaen yn gyflym, ac addawodd ei gefnogaeth fel y gallai'r cwmni symud ymlaen i awdurdodiad llawn cyn gynted â phosibl. Cawsom drafodaethau cadarnhaol pellach ynghylch gweithredu ein map ffordd llywodraethu a'n bwriad i symud ymlaen i ddatblygu ein hagenda buddsoddi lleol yn ystod Ch3 2026.

Yn fwy eang o safbwynt gweithredol, croesewir y parhad yn y swydd Weinidogol hon, gyda'r fantais ychwanegol fod deilydd y swydd yn Aelod Seneddol o Gymru. Edrychwn ymlaen at ddeialog barhaus gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) dros y misoedd nesaf.

Bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau nawr yn arwain y gweithgaredd trosiannol gweithredol sy'n weddill. Mae hyn yn cynnwys amnewid contractau gyda'n darparwr swyddfa ganol, ceidwaid a rheolwyr buddsoddi, sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth, a'r systemau a'r mesurau rheoli sy'n angenrheidiol i weithredu fel cwmni rheoledig o'r pwynt y caiff ei awdurdodi.

Mae gwasanaethau cymorth TG yn cael eu rhoi ar gontract allanol i Ddarparwr Gwasanaeth a Reolir (MSP) trydydd parti, ac roeddem yn falch o allu cwblhau a bwrw ymlaen â'r contractau hyn dros yr haf, gyda'r broses yn dod i ben ym mis Awst 2026. Rydym nawr yn symud tuag at oruchwylio perfformiad y darparwr hanfodol hwn yn unol â pholisi a safonau rheoleiddio'r Cwmni.

Camau nesaf

Ar ôl seibiant byr iawn i fyfyrio ar lwyddiant pawb sydd wedi cyfrannu at ddod â'n sefydliad newydd yn ddiogel i'r garreg filltir hanfodol hon, rydym wedi troi ein sylw'n gyflym iawn at y busnes dydd i ddydd o gyflawni ein mandad gweithredu buddsoddi. Ar yr un pryd, byddwn yn bwrw ymlaen â sawl ffrwd waith - wedi'u hymgorffori yn ein map ffordd llywodraethu – gyda'r bwriad o sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer ein cynllun busnes 5 mlynedd yng ngwanwyn 2027.

Yn olaf, wrth i ni symud i mewn i'r hydref ar ôl haf hir, poeth, gwyddom fod y gwaith go iawn o weithredu'r mandad, atebolrwydd cleientiaid ac aelodau, a disgyblaeth Llywodraethu yn ein disgwyl. Rwy'n hyderus, gyda'r tîm rydyn ni'n ei roi ar waith, ein bod mewn sefyllfa dda i ddechrau ad-dalu'r ffydd sydd wedi'i roi yn y sefydliad hwn. Rydym yn falch iawn o gael ein hawdurdodi'n ffurfiol i ddechrau gweithgareddau rheoledig. Derbyniwn yr her yn wylaidd, a gyda hyder tawel y gallwn lwyddo.

MAE CWMNI RHEOLI BUDDSODDIADAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYFYNGEDIG ("WPP") YN GWMNI PREIFAT CYFYNGEDIG TRWY GYFRANDDALIADAU, WEDI'I YMGORFFORI YNG NGHYMRU O DAN DDEDDF CWMNÏAU 2006 (CWMNI RHIF 16645479). SWYDDFA GOFRESTREDIG: CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP, Y DEYRNAS UNEDIG.



Rob Lamb
Prif Swyddog Gweithredol, Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru

MAE CWMNI RHEOLI BUDDSODDIADAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CYFYNGEDIG ("WPP") YN GWMNI PREIFAT CYFYNGEDIG TRWY GYFRANDDALIADAU, WEDI'I YMGORFFORI YNG NGHYMRU O DAN DDEDDF CWMNÏAU 2006 (CWMNI RHIF 16645479). SWYDDFA GOFRESTREDIG: CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP, Y DEYRNAS UNEDIG.